ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

TGCh Blwyddyn 3

Uned 3A: Cyfuno testun a graffeg

Ynglyn â'r uned:

Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu sut i gyfathrebu negeseuon gan ddefnyddio cyfuniad o graffeg a thestun. Maen nhw hefyd yn dysgu pwysigrwydd cadw eu gwaith yn rheolaidd ac adfer eu gwaith yn annibynnol.

Bydd plant yn cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth ysgrifennu adroddiadau; cynhyrchu cyflwyniadau amlgyfrwng.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar Uned 2A 'Ysgrifennu storïau: cyfathrebu gwybodaeth drwy destun' ac Uned 2B 'Creu lluniau'.

Geirfa:

cadw | adfer | maint/math/lliw y ffont | amlygu | dewis popeth | ffrâm | copïo | gludo | mewnosod | alinio i'r chwith | alinio i'r dde | canoli | newid maint/newid graddfa | graffeg |

Resources:

pecyn graffeg | prosesydd geiriau | amrywiaeth o gardiau cyfarch | CD-ROM gyda lluniau neu ffeil 'clip art'|

Disgwyliadau: Erbyn diwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: cyfuno graffeg gyda thestun; defnyddio effeithiau priodol, newid maint graffeg a chadw ac adfer eu gwaith yn annibynnol

Bydd rhai plant dim ondyn gallu: cyfuno graffeg gyda thestun a chadw ac adfer eu gwaith gyda chymorth

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: cyfuno graffeg gyda thestun; dewis effeithiau sy'n cyd-fynd â'u dibenion fel bod y graffeg a'r testun yn ategu ei gilydd a deall pwysigrweydd cadw eu gwaith yn rheolaidd

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Gosod Yr Olygfa			
• **syniad allweddol:** bod modd cyfuno graffeg a thestun i gyfathrebu gwybodaeth	♦ Dangoswch amrywiaeth o gardiau cyfarch i'r dosbarth. Trafodwch y dyluniadau a nodwch elfennau fel lluniau, ffontiau, is-benawdau a negeseuon. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a gofynnwch i bob grŵp archwilio un cerdyn. Gofynnwch iddynt gynhyrchu poster gyda sylwadau sy'n nodi nodweddion allweddol y cerdyn. ♦ Edrychwch ar negeseuon a sut maen nhw wedi cael eu hysgrifennu. Gofynnwch i'r plant feddwl am gardiau y gallent eu dylunio a'u cynhyrchu.	• adnabod prif nodweddion y cynllun	• Cynhwyswch gardiau cyfarch gydag amrywiaeth o luniau a mathau o deip ac atalnodi gwahanol.
Tasgau Byr Wedi'u Ffocysu			
• **techneg:** newid math, maint a lliw y ffont er pwyslais ac effaith	♦ Teipiwch nifer o eiriau, ee, *'enfys', 'tyfu', 'pwyso', 'uchel', 'isel', 'grisiau' ac 'ysbryd'*. ♦ Dangoswch nodweddion golygu'r ffont i'r dosbarth, megis sut i newid math, maint a lliw y ffont. Gofynnwch i'r plant newid gwedd pob gair fel ei bod yn adlewyrchu ei ystyr, *ee gosod pob llythyren o'r gair 'enfys' mewn lliw gwahanol, cynyddu maint ffont pob llythyren yn y gair 'tyfu' etc.*	• newid gwedd y testun i greu effaith	• Defnyddiwch feddalwedd sy'n rhoi cyfle i destun gael ei drafod mewn ffyrdd eraill, os ydynt ar gael ee *llinellau tonnog, siapiau amgen.*

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	Gweithgareddau posib	Canlyniadau dysgu *Gall disgyblion*	Pwyntiau i'w nodi
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.) • **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i wella testun • **techneg:** diwygio testun a chadw newidiadau	♦ Teipiwch ddarn o destun gan ddefnyddio 'neis' fel yr unig ansoddair. ♦ Atgoffwch y dosbarth sut i olygu testun drwy amlygu geiriau a theipio drostynt. Dangoswch sut i cadw gwaith a rhoi enw synhwyrol iddo. Gofynnwch i'r plant olygu'r testun gan ddefnyddio ansoddeiriau mwy amrywiol ac cadw eu gwaith.	• diwygio testun ac cadw eu gwaith	• Efallai bydd angen atgoffa rhai plant am y botwm Dadwneud os ydynt yn gwneud camsyniadau.
• **techneg:** cyfuno graffeg a thestun • **techneg:** defnyddio 'cadw fel', wedyn cadw i gadw eu gwaith yn rheolaidd ac adfer gwaith yn ddiweddarach.	♦ Paratowch enghreifftiau o destun a fyddai'n elwa o ddarluniau *ee disgrifiad o Fryn-gaer Celtaidd*. Dangoswch i'r dosbarth sut i leoli, adfer a mewnosod ac ychwanegu graffeg mewn darn o destun. Dangoswch i'r dosbarth sut i newid maint graffeg fel ei fod yn ffitio ar y dudalen. Gofynnwch i'r plant chwilio ffeil 'clip art' neu CD-ROM i leoli graffeg a'u copïo i mewn i ddarn o destun.	• cyfuno graffeg a thestun • Defnyddio 'cadw fel' i gadw'r gwaith i ddechrau a 'chadw' wedyn i cadw eu gwaith yn rheolaidd	• Gallai plant ymgorffori delweddau a gipiwyd o sganiwr neu gamera digidol hefyd.
• **techneg:** defnyddio'r fysell 'shift' i deipio symbolau, fel gofynodau	♦ Teipiwch ddarn o destun a rhowch 'x' yn lle'r holl atalnodi. ♦ Trafodwch sut mae awduron yn defnyddio atalnodi er effaith ac atgoffwch y dosbarth sut i ddefnyddio'r fysell 'shift' i deipio priflythrennau. Dangoswch iddynt sut i ddefnyddio'r fysell i deipio llythrennau eraill. ♦ Gofynnwch i'r plant roi'r atalnodi cywir yn lle pob 'x'. Gofynnwch iddynt argraffu eu gwaith.	• diwygio testun gan ddefnyddio'r cyfuniadau cywir o fyselli	Gellir caniatáu amser mewn unedau eraill i blant ddatblygu adnabyddiaeth o fysellfwrdd y cyfrifiadur .

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasg Asesu • cyfuno graffeg a thestun i gyfathrebu gwybodaeth	♦ Dywedwch wrth y dosbarth eu bod nhw'n mynd i gynhyrchu cylchgrawn dosbarth a fydd yn cynnwys lluniau ac is-benawdau, ac esboniwch y byddant yn defnyddio atalnodi ac effeithiau ffont. ♦ Rhannwch y plant yn barau a gofynnwch iddynt ddewis thema ar gyfer tudalen yn y cylchgrawn. Anogwch nhw i greu neu gipio llun ar gyfer eu tudalen a gofynnwch iddynt roi is-bennawd ar y llun. Dywedwch wrth y plant i argraffu eu gwaith a dod â'r gwaith at ei gilydd i lunio'r cylchgrawn. Yn olaf, trafodwch fanteision defnyddio TGCh gyda'r dosbarth.	• cyfuno graffeg a thestun a defnyddio effeithiau testun. • ystyried gosodiad y cylchgrawn • cadw ac adfer gwaith yn annibynnol	Gallai plant estyn y gweithgaredd hwn drwy greu tudalennau ar gyfer cyflwyniad amlgyfrwng *ee ar yr ardal leol neu amdanynt eu hunain* gan gyfuno graffeg a thestun.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA